**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ar nos Iau, 16 Mawrth 2023**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) y Cynghorwyr Endaf Edwards a Carl Worrall

**Yn cynrychioli Cyngor Tref Aberystwyth a Grŵp Defnyddwyr yr Harbwr:** Brian Davies

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain a Nia Jones (cofnodion)

**Defnyddwyr Eraill yr Harbwr**: Chris Seal, Martin Seal a Katy Willett

(7.15pm – 7.30pm)

1. **Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022**
Cytunwyd cadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022 yn gofnod cywir.

3. **Materion yn Codi**
dim

4. **Diweddariad am Wasanaethau Harbwr**
Rhoddodd Owen Morgan, Rheolwr Harbyrau Ceredigion, ddiweddariad gan gyfeirio at 4ydd Rhifyn Cylchlythyr 'Calm Waters' a ddosbarthwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw.

5. **Materion a Godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**
Gofynnwyd y cwestiynau canlynol cyn y cyfarfod

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Hoffwn drafod y sefyllfa barhaus o ran sefyllfa ariannol marina Aberystwyth, eu methiant i dalu staff a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i ddefnyddwyr yr harbwr (nifer fawr ohonynt) sy'n angori yno | Nid oes gan y Cyngor unrhyw rôl yng ngweithrediad na rheolaeth y Marina, felly nid yw mewn sefyllfa i wneud sylwadau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o nifer o faterion sy'n cael eu codi. Er y gallwn ddeall y pryderon, ni allwn wneud unrhyw sylwadau pellach ar yr adeg hon gan ei bod yn sefyllfa sy'n mynd rhagddi. |
| A oes modd ychwanegu'r grid sychu a'r lithrfa i'r agenda os gwelwch yn dda? Diolch | Gellir codi materion sy'n ymwneud â'r Grid Sychu a'r Lithrfa unrhyw bryd gyda Thîm yr Harbyrau naill ai wyneb yn wyneb, neu trwy Clic. |

Gofynnwyd cwestiynau atodol yn ystod y cyfarfod:

| | |
|---|---|
| A fwriedir gwneud unrhyw waith er mwyn glanhau'r ysgraff yng nghanol yr afon. Mae angen ei golchi gyda pheiriant golchi grymus er mwyn cael gwared ar y | Byddwn yn edrych i weld a oes gennym gyllidebau er mwyn cynnal a chadw, a chyllid posibl ar ffurf grant. Byddwn yn siarad gyda cheidwaid yr harbwr hefyd i |

| | |
|---|---|
| llysnafedd | weld beth y mae modd ei wneud. Byddai angen cynnal asesiad risg gan nad yw hi'n hawdd ei chyrraedd. |
| A yw hi'n debygol y bydd unrhyw newid o ran yr hawl i ddefnyddio'r harbwr, neu a yw'n debygol o gael ei drosglwyddo? | Nid oes unrhyw gynlluniau i newid unrhyw beth ar hyn o bryd. |

**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**
Mae'r rhestr aros am angorfeydd ar gyfer pob harbwr ym mis Mawrth 2023, a olygwyd, ynghlwm. Mae rhif pob cofnod yn adlewyrchu pryd y gwnaethpwyd y trafodiad. Mae'r broses o neilltuo angorfeydd fel y nodir ac yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

Diolchodd Cadeirydd y cyfarfod i bawb am fynychu'r cyfarfod.

**5. Unrhyw fater arall y bydd y Cadeirydd yn penderfynu bod gofyn i'r Pwyllgor roi ei sylw iddo ar frys**

Ni chodwyd unrhyw eitemau.